Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Rheolwr Tîm - Iechyd Meddwl Oedolion / Rhyddhau o'r Ysbyty** |
| **Lleoliad:** | **Gwethio Ystwyth / Cwm Coch, Ysbyty Aneurin Bevan, Lime Avenue, Glynebwy** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Rhif Swydd:** | **BG16261** |
| **Cyflog:** | **Gradd 11 (£51,515 - £54,717 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

**Crynodeb Swydd**

Ymunwch â'n tîm deinamig fel Rheolwr Tîm yn ein Tîm Iechyd Meddwl a Rhyddhau o'r Ysbyty, lle byddwch yn arwain ac yn ysbrydoli grŵp ymroddedig i ddarparu Gwasanaethau Lles o'r radd flaenaf ar draws Blaenau Gwent. Os ydych yn angerddol am ofal iechyd meddwl ac yn ffynnu mewn amgylchedd cydweithredol, hoffem glywed gennych. Ymgeisiwch nawr a am gyfle i fod yn ran o dîm sy'n ymroddedig i wella lles yn ein cymuned.

**Hysbyseb Lawn**

Rydym yn chwilio am unigolyn ymroddedig i ymgymryd â rôl Rheolwr Tîm, sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol ddyddiol y tîm o dan arweiniad y Rheolwr Gwasanaeth. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn angerddol dros ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl rhagorol a meithrin twf a datblygiad aelodau'r tîm. Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle unigryw i arwain tîm brwdfrydig sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, gan gydweithio â chydweithwyr o'r un anian sy'n ymroddedig i hyrwyddo mentrau iechyd meddwl cadarnhaol yn ein cymuned.

Bydd eich rôl yn cwmpasu ystod eang o dasgau sydd â'r nod ar wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys arwain, cymell a datblygu aelodau tîm gan ddefnyddio dull cydweithredol i fodloni gofynion y gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn well. Byddwch yn allweddol wrth sefydlu perthnasoedd gwaith lleol effeithiol ac yn trefnu gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau cydweithredol a threfniadau partneriaeth. Mae'r rôl hon yn rhoi cyfle unigryw i unigolyn profiadol ac angerddol gael effaith sylweddol ar ddarparu gofal iechyd meddwl. Byddwch yn cael cyfle i arwain tîm yn cydlynu gofal, cynllunio triniaethau a monitro o ansawdd uchel ac ar yr un pryd, yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wneud gwelliannau i'r systemau, prosesau a dulliau gweithio er mwyn gwella effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth. Os ydych chi'n barod i ymgymryd â rôl heriol ond gwerth chweil sy'n

cyfrannu'n gadarnhaol at les ein cymuned, rydym yn eich annog i ymgeisio a bod yn rhan o'n tîm ymroddedig.

**Amdanoch chi**

Ydych chi'n angerddol iawn am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl eithriadol ac a ydych chi'n cael boddhad o gefnogi a grymuso aelodau eich tîm i wireddu eu potensial llawn? Os felly, chi yw'r union berson yr ydym yn chwilio amdano.

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle anhygoel i chi arwain tîm llawn cymhelliant a brwdfrydedd sy'n ymroddedig i ragori ym maes gofal iechyd meddwl. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr o'r un anian sy'n rhannu eich angerdd dros hyrwyddo canlyniadau iechyd meddwl cadarnhaol yn ein cymuned. Dylech fod yn fedrus wrth adeiladu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda thimau mewnol, asiantaethau partner, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Dylai'r ffordd rydych yn arwain fod yn gynhwysol ac yn ysgogol, gan annog aelodau'r tîm i ragori a chyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant cyffredinol y tîm. Mae'r rôl hon yn mynd y tu hwnt i reoli tasgau; mae'n ymwneud â chael effaith ystyrlon ar fywydau defnyddwyr ein gwasanaethau a'u teuluoedd wrth feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chydweithredol. Os ydych chi'n barod i ddod â'ch sgiliau a'ch angerdd unigryw i'n tîm, rydym yn edrych ymlaen i gwrdd â chi.

**Amdanom ni**

Ym Mlaenau Gwent, rydym yn angerddol am y gwaith a wnawn a'r effaith a gawn. Rydym yn grymuso ein staff i wneud newidiadau ystyrlon a gweithredu i wella ein gwasanaethau. Gydag arweinyddiaeth gefnogol a gweladwy, offer a phrosesau effeithlon, a phwyslais ar ddysgu a datblygu rhagorol, rydym yn blaenoriaethu boddhad ac effeithiolrwydd staff.

Fel rhan o'n tîm, gallwch ddisgwyl amgylchedd cynnes a chynhwysol, lle mae eich twf a'ch datblygiad yn hollbwysig. Mae gan ein tîm angerddol ac arloesol gyfoeth o brofiad, gan ddarparu cefnogaeth ac anogaeth heb ei ail. Byddwch yn cael cyfle i rymuso teuluoedd, meithrin newid cadarnhaol, a helpu unigolion bregus i gyflawni eu huchelgeisiau. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant cefnogol, cyfleoedd datblygu niferus a hyblygrwydd i'n staff sy'n eu galluogi i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Dyma rai o buddiannau’r swydd hon:

- Cyflog cystadleuol.
- Cynllun pensiwn llywodraeth leol ardderchog.
- Gwerthusiadau perfformiad a sesiynau adborth gyda'ch rheolwr llinell.
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Darpariaethau gwyliau blynyddol a gwyliau arbennig.
- Mynediad i'n Rhaglenni Cymorth i Weithwyr.
- Pris gostyngedig i gampfa Aneurin Leisure Trust.

**Oes gennych chi gwestiwn yr hoffech ei holi?**

Os hoffech gwrdd â'r tîm neu gael trafodaeth anffurfiol, e-bostiwch:

Laura Harbinson | Laura.Harbinson@blaenau-gwent.gov.uk | 07968476067

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales

**Rydym yn cynnal proses sgrinio cyn-gyflogaeth drwyadl iawn pan fyddwn yn recriwtio ar gyfer y swydd hon. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Manwl o Gofnodion Troseddol.**

**Dyddiad Cau:** **30.05.2024**
**Dyddiad Cyfweliad:** **I'w gadarnhau**